**Arolygiad o dan Adran 28**
**Deddf Addysg 2005**

**Adroddiad ar Ansawdd Addysg yn**

**Ysgol Botwnnog**
**Botwnnog**
**LL53 8PY**

**Rhif yr Ysgol: 6614003**

**Dyddiad yr Arolygiad: 01/10/07**

**gan**

**Ian Garth Higginbotham**
**79675**

**Dyddiad Cyhoeddi: 03/12/07**

**O dan rif contract Estyn: 1200407**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?**

**Gradd 1:** Da gyda nodweddion rhagorol

104 Mae rhaglen dda ar gyfer hyrwyddo datblygiad ysbrydol disgyblion mewn addysg bersonol a chymdeithasol, Saesneg ac addysg grefyddol, a thrwy ymweliadau ag eglwysi lleol. Fodd bynnag, nid oes gan yr ysgol drosolwg o gyfraniad pob pwnc i'r rhaglen. Ychydig o gyfle y mae gwasanaethau ysgol yn eu cynnig i ddisgyblion fyfyrio ar faterion ysbrydol.

105 Mae nodweddion rhagorol yn y modd y mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Mae llawer o weithgareddau, yn yr ysgol ac yn y gymuned, yn hyrwyddo aeddfedrwydd a hunanddisgyblaeth disgyblion, ac ysgogi gwerthoedd megis gonestrwydd a pharch. Mae disgyblion yn aml yn helpu a dangos consyrn dros eraill trwy godi symiau sylweddol ar gyfer elusennau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Mae llawer o agweddau'r cwricwlwm yn hyrwyddo ymwybyddiaeth gadarn o ddiwylliant Cymru. Mae gweithgareddau allgyrsiol, gan gynnwys ymweliadau dramor, yn ehangu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliannau eraill.